ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

| | | |
|---|---|---|
| At: Y Cyng. A. Thomas<br>Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW | Gofynnwch am: | Craffu |
| | Llinell y Swyddfa Graffu: | 01792 637256 |
| | e-bost | scrutiny@swansea.gov.uk |
| | Dyddiad | 06 April 2017 |

Annwyl Gynghorydd Thomas,

**Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW – 27 Chwefror 2017**

Daeth Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ar Addysg pob un o'r chwe awdurdod lleol ynghyd yng Ngheredigion ar gyfer cyfarfod chwemisol y Grŵp Cynghorwyr Craffu. Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi i chi eu barn, eu casgliadau a'u hargymhellion o'r cyfarfod ar 27 Chwefror 2017.

Rhoddodd Prif Weithredwr ERW wybodaeth a diweddariadau i ni ar y canlynol:

*Rheoli Perfformiad*
Clywsom am y pecyn hyfforddi ar reoli perfformiad ar gyfer ysgolion, a sut y mae'n cael ei gyflwyno. Roeddem yn croesawu datblygiad y pecyn hwn, gan gydnabod pwysigrwydd rheoli perfformiad yn y broses gwella ysgolion.

*Categoreiddio Ysgolion*
Roeddem wedi mynegi pryder yn flaenorol am ddealltwriaeth y cyhoedd o'r system gategoreiddio, yn arbennig gan fod a wnelo hyn â'r cymorth y mae ysgolion yn ei gael, yn hytrach na'i bod yn system sy'n 'graddio'. Roeddem yn falch iawn o glywed bod newid cadarnhaol wedi bod o ran cyfathrebu'r mater hwn, ac o ran sut y mae gwybodaeth am gategoreiddio yn cael ei chyfleu yn y wasg, a sut y mae'r wasg yn adrodd am yr wybodaeth honno.

*Arolygiad Estyn o ERW*
Yn dilyn ein cyfarfod diwethaf, bu i ni ysgrifennu at Estyn ynghylch y gwaith o arolygu cyrff rhanbarthol, a'r modd nad yw codi safonau addysgol yn cael ei adlewyrchu mewn arolygiadau. Yn eu hymateb, mae Estyn wedi cynnig dod i un o'n cyfarfodydd i drafod hyn ymhellach. Bwriadwn dderbyn y cynnig hwn ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Gofynasom i Brif Weithredwr ERW am wybodaeth bellach am yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r agwedd ganlynol: *'Nid oes gan ddeiliaid portffolio awdurdod lleol fewnbwn digon eglur i'r gwaith o reoli neu oruchwylio gwaith ERW, a hynny er gwaethaf eu cyfrifoldeb allweddol yn eu hawdurdod lleol i oruchwylio gwasanaethau addysg'*.

Clywsom y bydd y deiliaid portffolio yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd Sicrhau Ansawdd chwe wythnosol yr Hwb er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae arolwg o ddeiliaid portffolio ledled y rhanbarth wedi cael ei gwblhau, ac maent wedi dweud eu bod yn fodlon ar y rhan y maent yn ei chwarae.

Clywodd y Grŵp am y sefyllfa bresennol o ran niferoedd ac ansawdd cymorth yr Ymgynghorwyr Her i awdurdodau lleol. Roeddem yn bryderus pan glywsom nad yw pob Awdurdod Lleol yn y rhanbarth wedi cyrraedd eu cwota llawn cytunedig. Fodd bynnag, roeddem yn falch o glywed bod ansawdd cymorth yr Ymgynghorwyr Her wedi gwella'n aruthrol.

*Yr Ymgyrch i recriwtio athrawon*

Roeddem yn falch o glywed am gynlluniau ar gyfer ymgyrch ledled pob rhanbarth yng Nghymru i annog pobl i fynd i addysgu. Roeddem yn cytuno bod angen gwneud defnydd o negeseuon cadarnhaol am addysgu yng Nghymru.

Roedd y pynciau eraill a drafodwyd gennym yn y cyfarfod yn cynnwys y canlynol:

*Addysg Ddewisol yn y Cartref*

Fel y gwyddoch, roeddem wedi ysgrifennu at Weinidog Addysg Cymru ar ôl ein cyfarfod diwethaf, ond cawsom ein siomi yn ei hymateb ac yn y canllawiau anstatudol a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Teimlem fod yna bwerau deddfwriaethol cadarn ar gael ar ddiogelu, y gellid eu defnyddio mewn perthynas â'r agwedd hon. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yna amharodrwydd i gysylltu'r rhain â'r canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref. Rydym hefyd yn cydnabod bod hwn yn fater trawsbynciol sy'n rhan o bortffolio nifer o Adrannau Gweinidogol, felly byddem yn hoffi iddo gael ei ystyried mewn Gweithdy Cabinet. Rydym yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru eto am y mater hwn.

*Llywodraethiant Ysgolion*

Cawsom sesiwn yn edrych ar Lywodraethiant Ysgolion, lle buom yn trafod yr hyfforddiant newydd sydd ar gael ar-lein, ac y gellir ei gyrchu trwy wefan ERW. Roedd y Grŵp yn gytûn ei bod yn bwysig i Benaethiaid gael eu hannog i ddatblygu eu Cyrff Llywodraethu trwy ddefnyddio'r adnoddau hyn.

Byddem yn croesawu eich ymateb i unrhyw bwyntiau yn y llythyr hwn, ond byddem yn gwerthfawrogi'n arbennig eich ymateb i'r pwynt canlynol:

- Pam nad oes gan rai awdurdodau lleol y cwota llawn cytunedig o Ymgynghorwyr Her, a beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yr eiddoch yn gywir,

**Y Cynghorydd Paul Hinge**
**Cadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW ac**
**Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Gymunedau Dysgu, Cyngor Sir Ceredigion**